WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ionawr 2012
www.wao.gov.uk

# Rhaglen astudiaethau gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru

## Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Cathedral Road**
**Cardiff**
**CF11 9LJ**

# Cyflwyniad


Gwaith sy'n mynd rhagddo 4

Cynigion ar gyfer astudiaethau gwerth am arian newydd 7

Atodiadau 10

Atodiad 1 - Disgrifiadau o waith sy'n mynd rhagddo 10

Atodiad 2 - Dewis ein rhaglen waith 16

# Gwaith sy'n mynd rhagddo

**1** Yn ei gyfarfod cyntaf ar 5 Gorffennaf 2011, cyflwynais bapur i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) yn crynhoi rôl Swyddfa Archwilio Cymru . Roedd y papur hefyd yn fodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar raglen astudiaethau gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r astudiaethau hyn yn ystyried materion yn ymwneud â darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna Llywodraeth Cymru, y cyrff cyhoeddus a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig o'u hadnoddau i gyflawni eu swyddogaethau.

**2** Mae fy adroddiadau yn sail i ran helaeth o raglen waith y Pwyllgor ei hun, yn ogystal â chefnogi, o bosibl, waith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. Felly, wrth ddatblygu fy rhaglen o astudiaethau mae'n ofynnol i mi ystyried safbwyntiau'r Pwyllgor, a nododd fy mhapur ym mis Gorffennaf fy mwriad i gyflwyno papur gerbron y Pwyllgor a fydd yn nodi blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer gwaith newydd i ddechrau yn 2012 yn fanylach.


**3** Mae Ffigur 1 yn dangos yr amrywiaeth o waith y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhan ohono ar hyn o bryd a allai fod ar gael i'r Pwyllgor ei ystyried tan ddiwedd 2012-13. Mae hefyd yn dangos tarddiad gwahanol y gwaith hwn o ran rhychwant cyffredinol gweithgarwch Swyddfa Archwilio Cymru

**4** Rhydd Atodiad 1 ragor o fanylion am y gwaith a ddisgrifir yn Ffigur 1. Rwy'n disgwyl ar hyn o bryd y bydd y rhan fwyaf o'r prosiectau hyn yn arwain at adroddiad cyhoeddedig a fydd ar gael i'r Pwyllgor ei ystyried rhwng nawr a diwedd 2012-13. Byddwn yn fodlon hwyluso sesiynau briffio anffurfiol os bydd aelodau, boed yn unigol neu ar y cyd, am drafod unrhyw ran o'r gwaith hwn ar unrhyw adeg.

**5** Mewn rhai achosion, mae adroddiadau yr oeddem wedi bwriadu eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Rhagfyr 2011 bellach yn gweithio i amserlenni gwahanol. Mae'r rhesymau dros y newid i'r amserlenni yn amrywio, yn cynnwys materion yn ymwneud â blaenoriaethau sy'n cystadlu'n fewnol, ymrwymiadau i waith newydd, prosesau clirio sy'n para'n fwy na'r disgwyl neu benderfyniadau a wnaethom i gynnal gwaith maes pellach i ymestyn cwmpas ein hadroddiadau.

1 *Rôl Swyddfa Archwilio Cymru a'n rhaglen astudiaethau gwerth am arian,* Swyddfa Archwilio Cymru, Mehefin 2011. http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Forward_prog_update2011_Final_Welsh.pdf

## Ffigur 1: Gwaith sy'n mynd rhagddo a allai fod ar gael i'w ystyried gan y Pwyllgor hyd ddiwedd 2012-13[2]




2 *Ers mis Gorffennaf 2011, rwyf wedi penderfynu peidio â chynnal adolygiad manwl o drefniadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer rheoleiddio cartrefi gofal. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn ond hefyd yn tynnu sylw at faterion penodol sy'n debygol o fod yn berthnasol i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofal preswyl i bobl hŷn.*

3 *Nid y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw'r brif gynulleidfa fwriadedig ar gyfer fy astudiaethau llywodraeth leol ac adroddiadau er budd y cyhoedd fy archwilydd penodedig ar gyfer llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd gan aelodau'r Pwyllgor ddiddordeb yn yr adroddiadau hyn o hyd ac, yn dibynnu ar eu cwmpas, gallant o bosibl lywio rhaglen waith y Pwyllgor ei hun.*

6 Nid yw'r pynciau a ddisgrifir yn Ffigur 1 ac Atodiad 1 yn cynnwys cyfeiriad at adolygiadau eraill amrywiol a gynhaliwyd yn ddiweddar fel rhan o'n rhaglen i archwilio perfformiad y GIG yn lleol. Mae'r rhaglen honno yn cynnwys gwaith dilynol ar ofal heb ei drefnu a rheoli cyflyrau cronig. Rwy'n rhagweld y byddwn yn dwyn ymlaen adroddiad(au) cryno cenedlaethol ar y pynciau hyn, a oedd yn rhan o raglen waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol, pan fyddwn wedi cwblhau gwaith maes lleol ac wedi cyflwyno adroddiadau arno. Rwyf hefyd yn bwriadu ysgrifennu at y Pwyllgor o ran gwaith dilynol diweddar ar wasanaethau mamolaeth, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor blaenorol ar ddechrau 2011.

7 Mae gwaith archwilio lleol arall ym mhob rhan o'r GIG dros y 12 mis diwethaf wedi ystyried materion yn ymwneud ag ystafelloedd llawdriniaethau a defnyddio llawdriniaethau dydd, gwaith dilynol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer meddygon iau, adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes ac ansawdd data. Bydd adroddiadau lleol ar y pynciau hyn ar gael ar ein gwefan unwaith y bydd pwyllgorau llywodraethu perthnasol cyrff unigol y GIG wedi'u hystyried. Nid wyf ar hyn o bryd yn rhagweld y byddwn yn llunio adroddiadau cryno ar y gwaith hwn, ond os oes meysydd sydd o ddiddordeb penodol i aelodau yna byddem yn fwy na bodlon trafod y gwaith hwnnw yn unigol neu ar y cyd.

8 Bydd ein rhaglen i archwilio perfformiad y GIG yn lleol ar gyfer 2012 yn cynnwys adolygiadau ym mhob un o'r byrddau iechyd lleol a, lle y bo'n berthnasol, ymddiriedolaethau'r GIG, o orthopedeg, rhagnodi gan feddygon teulu a llywodraethu gwybodaeth.

# Cynigion ar gyfer astudiaethau gwerth am arian newydd

9 Yn fy mhapur ym mis Gorffennaf, nodais yn sgîl agenda bolisi Llywodraeth Cymru sydd ar droed, y byddem yn cynnal dadansoddiad o'r newydd o feysydd astudio posibl o ran gwerth am arian.

10 Rydym wedi neilltuo amser hefyd i ystyried sut mae ein rhaglen waith yn gyson â gwaith cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio eraill. Rydym yn trafod gyda chydweithwyr yn Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gyfleoedd i gydweithio yn 2012-13 a thu hwnt. Er nad yw'r trafodaethau hyn wedi'u cwblhau'n derfynol, rwy'n awyddus i achub ar y cyfle i weithio gydag Estyn yn 2012-13 ar adolygiad o drefniadau yn ymwneud â defnyddio athrawon cyflenwi.

11 Ar y cam hwn, rwy'n cynnig dechrau gweithio ar bum astudiaeth arall yn ystod 2012-13 (Ffigur 2). Mae cyfanswm y gwaith newydd a gynigir a'r pynciau y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt yn ystyried ein hymrwymiadau presennol, yn cynnwys gwaith newydd rydym wedi gweithredu arno ers mis Gorffennaf 2011, y mae rhywfaint ohono mewn ymateb i faterion a ddaeth i'n sylw, a phynciau y mae gwaith wedi'i gynllunio ar eu cyfer ond nad yw wedi dechrau eto. Mae Ffigur 2 hefyd yn dangos rhai o'r pynciau rydym yn ystyried rhoi sylw iddynt yn 2013-14.

**Ffigur 2: Gwaith newydd a wnaed ers mis Gorffennaf 2011 a chynigion ar gyfer gwaith yn y dyfodol**

| Gwaith newydd a wnaed ers mis Gorffennaf 2011 |
|---|
| Gwerthu Gwesty River Lodge (gynt), Llangollen |
| Gofal iechyd ledled y DU: Cymharu'r GIG yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon |
| Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru/Coetir Ffynone a Chilgwyn (gwaith dilynol) |
| Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (gwaith dilynol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru) |
| **Astudiaethau a gynlluniwyd yn flaenorol nad ydynt wedi dechrau eto** |
| Pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant |
| Rheoli meddyginiaethau |
| **Cynigion ar gyfer gwaith newydd i ddechrau yn 2012-13** |
| Trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector |
| Rheoli a chynllunio ariannol ym maes addysg uwch |
| Athrawon cyflenwi (ar y cyd ag Estyn o bosibl) |
| Cynllunio'r gweithlu yn y sector cyhoeddus/rheoli'r gwaith o leihau'r gweithlu |
| Grantiau i ffermwyr (gan ganolbwyntio o bosibl ar gynllun amaeth-amgylchedd Glastir) |
| **Rhai o'r pynciau rydym yn ystyried rhoi sylw iddynt yn 2013-14** |
| Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus |
| Llifogydd mewndirol (o bosibl i gynnwys gwaith dilynol ar erydu arfordirol a llifogydd llanw) |
| Masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau |
| Rheoli/rhesymoli adeiladau sector cyhoeddus |
| Buddsoddiad cyfalaf strategol - buddsoddi i arbed |
| Caffael cynaliadwy |
| Mynd i'r afael â gwella iechyd - e.e. gordewdra |
| Adnewyddu/adfywio economaidd (e.e. cynhwysiant digidol, parthau menter neu ardaloedd adnewyddu strategol) |

12 Fel y pwysleisiais yn fy mhapur ym mis Gorffennaf, mae'n bwysig cadw rhywfaint o hyblygrwydd yn fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian i sicrhau bod modd i ni ymateb ar fyr rybudd i faterion sy'n peri pryder i'r cyhoedd neu alwadau eraill na ellir eu rhagweld ar ein hadnoddau. Er enghraifft, mae'r gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â gwerthu Gwesty River Lodge (gynt), Llangollen, wedi deillio o faterion a ddaeth i'm sylw dros y misoedd diwethaf ac yn dilyn cais gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru i archwilio'r mater.

13 Rwyf bob amser yn agored i farn y Pwyllgor ac yn ei chroesawu o ran y blaenoriaethau cymharol ar gyfer fy ngwaith yn y dyfodol neu bynciau eraill yr hoffai i Swyddfa Archwilio Cymru eu hystyried. Ers fy mhapur diweddaru blaenorol, mae rhai aelodau wedi mynegi ddiddordeb yn y posibilrwydd o gyflawni gwaith yn y dyfodol ar effaith newidiadau mewn budd-daliadau yng Nghymru, hyrwyddo twristiaeth, caffael a chynaliadwyedd cyhoeddus, fferyllfeydd cymunedol, cyflog uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus ac addysg ôl-16. Yn achos hyrwyddo twristiaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ei hadolygiad ei hun yn y maes hwn a gaiff ei arwain yn allanol. Fodd bynnag, bydd nifer o bynciau a restrir yn Ffigur 2 yn rhoi'r cyfle i ystyried y materion y mae aelodau wedi mynegi ddiddordeb ynddynt. Er enghraifft:

- wrth ystyried ein hadroddiad ar y Fenter Twyll Genedlaethol, gallai'r Pwyllgor archwilio'r gydberthynas bosibl rhwng newidiadau mewn budd-daliadau a lefelau'r twyll a gaiff ei ganfod;
- byddai gwaith ar bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ac ar reoli a chynllunio ariannol ym maes addysg uwch yn darparu cyfleoedd i ystyried materion yn ymwneud ag addysg ôl-16;
- bydd ein hadroddiad diweddar ar Safon Ansawdd Tai Cymru a gwaith presennol ar y broses o gaffael gwasanaethau ymgynghori yn cynnig cyfleoedd i'r Pwyllgor ystyried materion sy'n berthnasol i gaffael cynaliadwy.
- gallai gwaith ar reoli meddyginiaeth ddarparu cyfle i ni archwilio materion o ran fferyllfeydd cymunedol;
- gallai'r adolygiad arfaethedig o gynllunio'r gweithlu/lleihau'r gweithlu yn y sector cyheoddus ystyried gweithredu er mwyn lleihau costau staff ar bob lefel, yn cynnwys uwch-reolaeth, er ei bod hi'n anodd i ystyried materion yn ymwneud â graddfeydd cyflog ar gyfer uwch swyddogion gweithredol yng nghyd-destun Cymru yn unig.

14 Rwy'n bwriadu rhoi diweddariad pellach ar gynnydd o ran ein rhaglen o astudiaethau tuag at ddiwedd tymor yr haf. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor i gynllunio ei raglen waith rhwng mis Medi 2012 a mis Mawrth 2013. Yn y cyfamser, bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal trafodaeth reolaidd â chlercod y Pwyllgor am amserlenni cyhoeddi adroddiadau unigol a'u heffaith ar raglen waith y Pwyllgor.

# Atodiadau

## Atodiad 1 - Disgrifiadau o waith sy'n mynd rhagddo ac amserlenni arfaethedig

| Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2012 |
|---|
| **Cyfranogiad y cyhoedd o ran ailgylchu gwastraff**<br>Mae ailgylchu gwastraff yn rhan bwysig o gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddinasyddion yng Nghymru fyw o fewn yr adnoddau sydd ar gael, fel y nodir yn *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*. Yn ogystal â thargedau'r UE, mae targedau heriol iawn Llywodraeth Cymru sy'n gofyn i awdurdodau lleol gynyddu faint a ailgylchir o'r gyfradd bresennol o 44 y cant, i o leiaf 70 y cant erbyn 2025. Mae ailgylchu'n dibynnu ar gyfranogiad gwirfoddol y cyhoedd ac mae angen i ddinasyddion newid eu hymddygiad. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried a yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gwneud digon, drwy gymhwyso polisïau a darparu gwasanaethau, i sicrhau bod cynifer o'r cyhoedd â phosibl yn ailgylchu.<br><br>Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris<br>Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Andy Phillips |
| **Cyllid y GIG**<br>Darparodd fy adroddiad diweddar *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011* drosolwg lefel uchel o'r heriau ariannol sy'n wynebu'r GIG. Bydd yr adroddiad manylach hwn ar gyllid y GIG yn ystyried y ffyrdd y mae'r GIG wedi cyflawni balans ariannol yn y gorffennol ac yn ystyried yr heriau byrdymor, tymor canolig a hirdymor sy'n wynebu'r GIG wrth iddo geisio cyflawni balans ariannol mewn amgylchedd o ostyngiadau ariannol mewn termau real.<br><br>Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Gillian Body<br>Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Matthew Coe |
| **Astudiaeth llywodraeth leol - ymgysylltu â'r cyhoedd**<br>Yn 2004, nododd dogfen strategaeth Llywodraeth Cymru, *Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau*, fod 'angen inni ddod o hyd i ffyrdd o roi llais cryfach i bobl yn eu cymunedau - ar lefel cymunedau lleol a chymunedau o ddiddordeb - wrth lunio gwasanaethau a blaenoriaethau i ddiwallu anghenion presennol ac ar gyfer y dyfodol'. Bydd yr adroddiad hwn yn archwilio'r cynnydd a wnaed gan lywodraeth leol wrth ddatblygu dull strategol ac effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd a chanfod p'un a yw'r prosesau presennol yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio gweithredoedd llywodraeth leol.<br><br>Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris<br>Rheolwyr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Michael Palmer a Helen Keatley |

## Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2012

### Cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd 2007-13

Mae Cymru yn gymwys i gael tua €2.22 biliwn (€317 miliwn y flwyddyn) gan yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2007 a 2013 ar gyfer rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd, yn bennaf i ariannu gweithgareddau i wella economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'r rhaglenni'n gweithredu o fewn fframwaith tynn o dargedau gwario a rheoliadau ar wariant, rheoli a rheolaeth ariannol. Bydd yr adroddiad yn ystyried cynnydd o ran cyflawni'r rhaglen ac yn asesu a ydynt yn mynd i gyflawni eu buddiannau disgwyliedig. Bydd hefyd yn ystyried y trefniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i weinyddu'r rhaglenni ac yn gwerthuso eu heffaith,

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Ann-Marie Harkin

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Ben Robertson

### Hysbysu gofal iechyd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Hysbysu Gofal Iechyd yn 2003 mewn ymateb i bryderon cynyddol nad oedd systemau gwybodaeth y GIG yn gallu ymdopi mwyach â gofynion gwasanaeth iechyd modern a chynyddol gymhleth. Creodd Llywodraeth Cymru'r rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd fel fframwaith datblygu 10 mlynedd wedi'i lywio gan TGCh, i geisio cyflwyno ffyrdd newydd o gael gafael ar wybodaeth, ei defnyddio a'i storio i leihau oedi gweinyddol a gwallau clinigol. Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried a grëwyd y rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd i lwyddo a'r cynnydd a gaiff ei wneud i gyflawni'r buddiannau bwriadedig.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Mandy Townsend

### Gwireddu buddiannau contract meddygon ymgynghorol y GIG

Cytunodd Llywodraeth Cymru ar Gontract diwygiedig i Feddygon Ymgynghorol yng Nghymru, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003, sef y newid mawr cyntaf i delerau ac amodau meddygon ymgynghorol y GIG ers 1948. Yng Nghymru, cyflwynwyd y contract diwygiedig yn benodol i helpu i gyflawni'r buddiannau canlynol ar gyfer y GIG:

- gwella amgylchedd gwaith meddygon ymgynghorol;
- gwella lefelau recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol;
- helpu rheolwyr iechyd a meddygon ymgynghorol i gydweithio i ddarparu gwasanaeth gwell i gleifion .

Bydd yr adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ganfyddiadau gwaith archwilio lleol i ystyried effeithiolrwydd trefniadau cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol yn y gwaith o gyflawni buddiannau bwriadedig y contract i feddygon ymgynghorol.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Malcolm Latham

## Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2012

**Gwerthu Gwesty River Lodge (gynt), Llangollen**

Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried a yw'r penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran caffael Gwesty River Lodge, Llangollen, a'r defnydd dilynol ohono yn sicrhau gwerth da am arian. Yn benodol:

- A ystyriwyd gwerth am arian mewn modd digonol wrth wneud penderfyniadau allweddol?
- A oedd y trefniadau llywodraethu a oedd yn ategu'r prosesau penderfynu yn ddigon cadarn a thryloyw?
- A bennwyd proses briodol trylwyr a thryloyw bellach i ystyried yr opsiwn mwyaf priodol ar gyfer y gwesty a'r safle?
- A yw Llywodraeth Cymru wedi nodi gwersi i'w dysgu o'r digwyddiadau yn ymwneud â Gwesty River Lodge ac wedi newid arferion gwaith?

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Ian Hughes

**Menter Twyll Genedlaethol 2010-11**

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer a gynhelir bob dwy flynedd sy'n paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi achosion o dwyll a gordaliadau. Ers iddi ddechrau yn 1996, mae'r Fenter wedi arwain at ganfod ac atal gwerth mwy nag £16 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru. Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau o'r ymarfer diweddaraf, Menter Twyll Genedlaethol 2010-11, a bydd yn nodi cynigion ar gyfer datblygu'r Fenter hon yn y dyfodol.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Anthony Barrett

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: David Rees

## Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Mawrth 2013

**Gofal iechyd ledled y DU**

Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrannu at brosiect a gaiff ei arwain gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac sydd hefyd yn cynnwys Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, i ystyried gwahaniaethau mewn strwythurau, blaenoriaethau, perfformiad a chanlyniadau gofal iechyd ledled y pedair gwlad yn y DU. Ymhlith y meysydd posibl ar gyfer sylwadaeth yn yr adroddiad terfynol mae:

- tueddiadau cyllid mewn termau real ym maes gofal iechyd;
- balans adnoddau rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd;
- amrywiadau o ran math o weithgaredd (e.e. derbyniadau dewisol yn erbyn cyfraddau achosion dydd);
- mynediad i ofal iechyd (e.e. amseroedd aros), ansawdd (e.e. cyfraddau heintiau a gafwyd yn yr ysbyty) a chanlyniadau (e.e. cyfraddau marwolaeth).

I ddeall y gwahaniaethau sefydliadol neu berfformiad yn well, bydd y gwaith hefyd yn cynnwys archwiliad mwy trylwyr o bedwar maes gofal iechyd yn benodol: obstetreg, cluniau newydd, brechu/imiwneiddio a sgrinio ar gyfer canser y fron.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas

## Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Mawrth 2013

### Cynllunio at argyfwng - argyfyngau sifil posibl

Mae argyfyngau sifil posibl yn ddigwyddiadau trychinebus a all arwain at farwolaeth ond gallant hefyd amharu'n ddifrifol ar yr economi ac arwain at gost sylweddol iddi. Nid oes gan Lywodraeth Cymru y cyfrifoldeb datganoledig am argyfyngau sifil posibl ond mae'n cydgysylltu'r gwaith o roi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith. Ni chynhaliwyd adolygiad sylweddol o effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Fodd bynnag, yn 2011, argymhellodd Adolygiad Simpson o brosesau darparu gwasanaethau awdurdodau lleol y dylid trefnu gwaith cynllunio brys yn rhanbarthol ar gyfer awdurdodau lleol a gwasanaethau golau glas. Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried i ba raddau y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru fynd i'r afael â materion cynllunio brys a rhoi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Andy Phillips

### Addysg plant sy'n derbyn gofal

Mae canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal wedi bod yn is o lawer na chanlyniadau plant a phobl ifanc eraill. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi ceisio dileu rhwystrau i ddysgu a gwella'r cymorth i blant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal drwy amrywiaeth o fentrau. Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried a oedd y camau gweithredu a gymerwyd yn ddigonol i wella'r canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal yn sylweddol.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Stephen Martin

### Gwaith dilynol y Comisiwn Coedwigaeth

Ym mis Tachwedd 2008, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar *Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru*, ac wedyn adroddiad ym mis Awst 2010 ar *Comisiwn Coedwigaeth Cymru - Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn*. Lluniodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei adroddiadau ei hun ar y pynciau hyn ym mis Mawrth 2009 a mis Chwefror 2011 yn y drefn honno. Mewn ymateb i argymhelliad a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor ar goetir Ffynone a Chilgwyn, bydd yr astudiaeth hon yn ystyried y cynnydd a wnaed gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a, lle y bo'n briodol, Lywodraeth Cymru, o ran gweithredu'r argymhellion amrywiol ym mhedwar adroddiad blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Emma Giles

### Gofal iechyd parhaus

Er mwyn helpu i sicrhau mynediad mwy priodol, teg a chyson i Ofal Iechyd Parhaus y GIG, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith yn 2010, a nododd bolisi diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer bod yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus a chyfrifoldebau byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Bydd yr adroddiad yn ystyried y cynnydd a wnaed gan fyrddau iechyd a'u partneriaid wrth weithredu'r fframwaith hwn.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Steve Ashcroft

## Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Mawrth 2013

**Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed - gwaith dilynol**

Ym mis Tachwedd 2009, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru, gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ganfyddiadau adolygiad ar y cyd o wasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gwasanaethau yn methu llawer o blant a phobl ifanc o hyd, er gwaethaf rhai gwelliannau mewn blynyddoedd blaenorol. Amlygodd yr adroddiad nifer o feysydd lle rhoddwyd diogelwch plant a phobl ifanc yn y fantol. Bydd yr adroddiad dilynol hwn yn ystyried, ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, p'un a gymerwyd camau priodol i ddileu neu leihau'r risgiau hyn.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Steve Ashcroft

**Astudiaeth llywodraeth leol - ymateb i gyfyngiadau ariannol**

Bydd yr astudiaeth hon yn adolygu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu harian i sicrhau gwelliannau yn yr hinsawdd economaidd heriol hon. Bydd yn ystyried sut mae awdurdodau lleol yn nodi ac yn sicrhau effeithlonrwydd a'r effaith bosibl ar wasanaethau a chanlyniadau. Ni fydd yr astudiaeth yn bwrw golwg cynhwysfawr ar ymatebion pob awdurdod lleol i'r sefyllfa ariannol, ond bydd yn darparu trosolwg o'r ymagweddau hyn gydag astudiaethau achos i ddangos meysydd posibl lle y gellir dysgu gwersi cyffredin.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: I'w Gadarnhau

**ffael gwasanaethau ymgynghori**

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £275 miliwn y flwyddyn ar wasanaethau ymgynghori allanol. Os na chaiff gwasanaethau ymgynghori eu caffael a'u rheoli'n dda, gallant fod yn ffordd gostus ac aneffeithlon o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a gallant gyfyngu ar y cyfle i gyrff cyhoeddus ddefnyddio sgiliau sy'n bodoli eisoes neu gael gwybodaeth a sgiliau newydd. Mae sicrhau gwerth am arian yn dibynnu ar ddiffinio a chyfiawnhau'r angen, prosesau caffael craff, rheoli prosiect effeithiol, llywodraethu tynn, strwythurau atebolrwydd ac asesiad trylwyr o'r buddiannau a gyflawnwyd. Drwy nodi meysydd lle gall cyrff cyhoeddus ddefnyddio ymgynghorwyr mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol, nod yr astudiaeth hon yw amlygu cyfleoedd i gydweithio a chydweithredu, nodi enghreifftiau o arfer da a helpu i lywio'r broses o gyflawni a datblygu strategaethau cenedlaethol yn y meysydd hyn.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Jeremy Morgan

## Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Mawrth 2013

**Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Leoli yn 2002, a oedd yn seiliedig ar yr egwyddor gyffredinol o ddatganoli gwasanaethau o Gaerdydd. Canolbwyntiodd Cam I y rhaglen ar adeiladu tri adeilad swyddfa newydd ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno, ynghyd â nifer o brosiectau yn canolbwyntio ar faterion fel adleoli staff a chyfathrebu. Roedd hefyd yn cynnwys rhesymoli trefniadau rheoli cyfleusterau Llywodraeth Cymru. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried y broses o gyflawni Cam I y rhaglen i nodi a gyflawnodd Llywodraeth Cymru amcanion y rhaglen mewn ffordd a oedd yn gynaliadwy ac yn sicrhau gwerth am arian. Gall ein hadroddiad hefyd ystyried cynnydd gyda Cham II y rhaglen, a ddechreuodd yn 2010, i'w gwblhau yn 2015, ac sy'n canolbwyntio ar resymoli ystad Llywodraeth Cymru.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Jeremy Morgan (dros dro)

## Atodiad 2 - Dewis ein rhaglen waith

Mae ein strategaeth yn nodi amrywiaeth o ffactorau rydym yn eu hystyried wrth benderfynu pa feysydd y byddwn yn edrych arnynt:

- lefelau buddiannau a phryderon y cyhoedd;
- p'un a yw Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa i hwyluso neu gyflawni canlyniad addas;
- maint y materion a'r risgiau cysylltiedig;
- p'un a ellir trosglwyddo'r gwersi a ddysgir;
- a yw'r gwaith yn amserol;
- p'un a yw'n well gweithio'n unigol neu gydag eraill.

Rydym hefyd yn ystyried amrywiaeth o ffactorau eraill, gan gynnwys y cyd-destun polisi ehangach. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, yr hinsawdd ariannol sydd ohoni a nod Llywodraeth Cymru o sicrhau mai 'datblygu cynaliadwy' yw'r egwyddor arweiniol i lywodraeth yng Nghymru. Mae angen i ni hefyd ystyried deddfwriaeth berthnasol, fel Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol, wrth gyflawni ei swyddogaethau, ystyried yn briodol yr angen i ddileu gwahaniaethu, datblygu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Yn benodol o ran ein hastudiaethau gwerth am arian, mae angen i ni hefyd sicrhau rhaglen waith gytbwys ar draws portffolios gwariant Llywodraeth Cymru.